

# Cefnogi Pobl - Gwent

## Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

Ystafell Pwllgora 2/3, Canolfan Ddinesig, Heol Glantorfaen, Pont-y-pŵl, NP4 6YB  
09:30 yb - 13:00 yp Ebrill 28<sup>ain</sup> 2017

### Presennol (Aelodau Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol)

Alicja Zalesinska, Tai Pawb, Cyfarwyddwr  
Alyson Hoskins, CBS Blaenau Gwent, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion  
Chris Edmunds, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cydlynnydd Rhaglen In One Place  
Chris Humphrey, CS Casnewydd, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau Cymuned  
Elke Winton, CBS Torfaen, Rheolwr Grŵp Tai  
Emma Hammonds, MIND Torfaen a Blaenau Gwent, Cyfarwyddwr, Cynrychiolydd Darparwr Cymorth  
Julia Osmond, Iechyd y Cyhoedd, Blaen Ymgymwerwr Iechyd y Cyhoedd  
Hugh Irwin, United Welsh, Cynrychiolydd Landlordiad  
Kath Deakin, MHA, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, Cynrychiolydd Darparwr Cymorth  
Neil Taylor, Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaethau, OPCC  
Nicola Needle, CS Sir Fynwy, Pennaeth Newid Arfer, Newid Bywydau  
Richard Sheahan, Linc Cymru, Cynrychiolydd Landlordiaid  
Sam Lewis, Llamau, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth y Dwyrain, Cynrychiolydd Darparwr

### Swyddogion Cefnogi yn bresennol:

Angela Lee, Cydlynnydd Cefnogi Pobl Datblygu Rhanbarth Gwent (Cofnodion)  
Chris Robinson, CS Sir Fynwy, Comisiynydd Arwain, Sicrhau Ansawdd a Cefnogi Pobl  
Michelle Church, Cefnogi Pobl ardal Blaenau Gwent, Rheolwr Cefnogi Pobl  
Shelly Jones, Cefnogi Pobl ardal Caerffili, Rheolwr, Cefnogi Pobl  
Nigel Stannard, CS Casnewydd, Rheolwr Cefnogi Pobl  
Rachael Lewis, Rheolwr Cefnogi Pobl, Torfaen

### Ymddiheuriadau:

Darren Daniel, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Rheolwr Tîm  
Dave Congreve, Cynrychiolydd Trechu Tlodi  
Diana Binding, Prif Weithredwr Cynorthwyol, Gwasanaeth Prawf Gwent Cymru  
Donna Lemin, Llywodraeth Cymru, Llywodraethu ac Achredu Data Cefnogi Pobl  
Viv Daye, CBS Caerffili, Rheolwr Gwasanaeth

	Eitem/ Trafodaeth	Gweithred
1.	<p><b>Croeso a chyflwyniadau</b> Croesawyd pawb i'r cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent gan AH a rhoddwyd cyflwyniadau.</p> <p><b>Ymddiheuriadau</b> Fel y nodir uchod</p> <p><b>Datganiad Buddiannau</b> Datganodd EH fuddiant mewn eitem agenda 10. Datganodd JO fuddiant mewn eitem agenda 10.</p>	
2.	<p><b>Cynrychiolaeth: Rhaglen Llwybrau Gwent, Cynllun Rhanbarthol Troseddwr Toreithiog. Dafydd Davies</b></p> <p>Rhoddodd DD ymddiheuriadau am beidio gallu mynychu'r cyfarfod i ddarparu'r cyflwyniad uchod.</p> <p><b>Gweithred: Bydd cyflwyniad Llwybrau Gwent yn cael ei ad-drefnu ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fis Gorffennaf</b></p>	A
3.	<p><b>Adolygiad Llety â Chymorth Paul Webb</b></p> <p>Rhoddwyd gorolwg i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol o'r Adolygiad Llety â Chymorth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Penderfynwyd Llywodraeth y DU i dynnu cost rheoli tai ychwanegol o'r system Budd-daliadau Tai, sy'n seiliedig ar hawliadau unigol</li> <li>• Mae Budd-daliadau Tai wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar; rhagwelir bydd cronfa â therfyn ariannol a fydd yn cael ei throsglwyddo i Gymru</li> <li>• Bydd cyllid Credydau Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar gyfer costau tai hyd at gyfradd Awdurdod Tai Lleol yn unig, byddai rhaid i unrhyw arian ychwanegol ddod o'r gronfa newydd.</li> <li>• Gall gwasanaethau tymor byr, gan gynnwys darpariaeth hostel a lloches, gymryd 6 wythnos i brosesu hawliadau presennol; mae risg posibl o lety gwag o fewn gwasanaethau tymor byr, felly bydd yn debygol y caiff y mathau hyn o gynlluniau eu hystyried ar wahân fel rhan o'r model cyllido newydd.</li> </ul> <p>Mae'r amserlen gyfredol yn parhau er gwaethaf galw am etholiad cyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swm penodol o arian / trosglwyddo o'r Trysorlys i Gymru</li> <li>• Yn Lloegr mae cronfa arian atodol ar gyfer awdurdodau lleol yn cael ei gyflwyno</li> </ul>	

- Bydd penderfyniadau Gweinidogol ar sut bydd yr arian yn cael ei wario, ar ôl iddo gael ei drosglwyddo i Gymru.
- Tachwedd 2016 Llywodraeth y DU - cafwyd ymgynghoriad yn seiliedig ar ymchwil; nid yw'n fwiad i ddibynnu ar yr ymchwil hwn i gynhyrchu ffigurau ar gyfer Cymru oherwydd cynhaliwyd yr ymchwil yn 2015. Defnyddiwyd y gwaith ymchwil i lywio penderfyniadau polisi, nid i benderfynu faint o arian sy'n dod i mewn i Gymru
- Adolygiad Cymru: Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyd-gynhyrchu'r cyngor polisi yn y maes hwn. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru am weithio gyda'r sector i lunio'r cyngor a rhoddir i Weinidogion, e.e. dewis opsiynau ac ati
- Buddiannau sy'n cystadlu:
  - Mae Landlordiaid eisiau sicrwydd i barhau i adeiladu
  - Darparwyr sydd eisiau gallu datblygu darpariaeth gynaliadwy
  - Comisynwyr o ran sut mae parhau datblygu beth sydd ei angen yn y dyfodol
- Sefydlu grŵp llywio i gefnogi datblygiad y cyngor Gweinidogol; cysylltu ar hyn o bryd gyda'r rhwydweithiau presennol e.e. Cymorth, Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC).
  - Bydd y Grŵp Llywio'n cynnwys - CIC, Cymorth CLIL, cynrychiolwyr tai/landlordiaid, cynrychiolwyr Darparwyr Cymorth, cynrychiolydd LIC
- Amserlen Bresennol:
  - Diwedd Mai - rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch yr achos am newid - disgrifio a gosod beth yw'r amgylchiadau presennol. I gynnwys beth mae'r sector yn wneud yn dda neu ddim yn wneud yn dda o ran cyflawni. Sicrhau gwerth am arian a bod yn strategol / bydd arfarniad dewisiadau yn cael eu cynnwys o fewn y diweddariad hwn
  - Diwedd mis Awst - datblygu dewisiadau; ac estyn a mynd allan i drafod hyn gyda'r sector
  - Diwedd mis Hydref - bydd angen datblygu cyngor o ran y dewis a ffafrir i Ysgrifennydd y Cabinet
  - Hyd at Dachwedd - bydd dadansoddiad gwariant yn ogystal â chyhoeddiad yn natganiad yr Hydref am sut caiff yr arian ei ddsbarthu ledled Cymru / pob Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau o sut rydym yn cael dosbarthiad ariannol ar hyd o bryd a sut dosbarthir yr arian o fis Mawrth 2019 ymlaen
  - Tachwedd 2017 - paratoi ymgynghoriad ffurfiol
  - Ymgynghoriad i fod ar waith hyd at fis Mawrth 2018
  - Cytundeb a phenderfyniadau Gweinidogol
  - 2018-19 ymbaratoi ar gyfer cyfnod pan fydd y gronfa yn daladwy
  - Mawrth 2019 rhoi ar waith

Grŵp Llywio - Mae Jim McKirdle yn chwilio am gomisiynydd/cynrychiolydd Awdurdodau Lleol priodol

Codwyd a thrafodwyd y pwyntiau canlynol a bydd angen cytuno a'u hystyried wrth symud ymlaen

- Ddylai glustnodi a neilltuo arian o ran y Rhaglen Cefnogi Pobl o hyd? Mae cysylltiadau clir rhwng Cefnogi Pobl â'r agenda hwn
- Ddylai hefyd glustnodi a neilltuo arian o'r gronfa newydd?
- Mae'n bosibl bydd 4 cronfa ariannol yn y pen draw: Cronfa Llety Gwarchod i Bobl Hŷn/cyllid ar gyfer Anghenion Dysgu? Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl / ariannu llety tymor byr
- Dysgu o brofiad rheoli tai - arian yn mynd at SRG.
- Mae'n bwysig i'r gwaith beidio fod yn rhy gymhleth gan fod penderfyniadau strategol eisoes yn cael eu gwneud ynglŷn â'r datblygiad tai â chymorth
- Dylid cynnwys y gwasanaeth iechyd ynghyd ag rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb e.e. rhanddeiliaid Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau
- Mae cyfle i wella trefniadau comisiynu e.e. Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, gallai hyn helpu i wella cyflawniad y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol
- Mae cyfle i ddefnyddio'r adolygiad i edrych ar effaith ar feysydd polisi eraill e.e. agenda Llesiant
- Mae galw cynyddol o ran Pobl Hŷn/Anableddau Dysgu/poblogaeth ag Anableddau Dysgu sy'n heneiddio / atal digartrefedd Mae angen derbyn, o bosibl, ni fydd adnoddau cynyddol i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol hwn. Sut rydym yn sicrhau ein bod ni'n gallu parhau i ddiwallu'r galw?
- Defnyddio safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth o fewn yr arfarniad dewisiadau iddynt gael llais
- Dylai gael gymorth fod mor syml â phosibl i'r person sydd agen cymorth a dylai fod yn hawdd i bobl gael mynediad ato fe.
- Llety tymor byr - sicrhau bod modd i'r landlordiaid gael yr arian - hawliadau unigol?
- Ymgynghoriad wedi cau, doedd dim consensws cyffredinol o ran ymatebion a derbyniwyd
- Gweinyddiaeth: dysgu gwersi gorlwythi'r weinyddiaeth Cefnogi Pobl
- Mesur lleihau digartrefedd a'r effaith
- Cyhoeddir cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn bo hir

Rhoddodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent wybod ei fod yn fodlon ac yn gallu helpu ymgysylltu a llywio'r gwaith Adolygiad Llety â Chymorth wrth symud ymlaen.

#### 4. Cadw a Chynnal

- Cofnodion/ gweithrediadau sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol (25/01/2017)

B3/C3 - Mae Casnewydd yn gweithio o hyd gyda chronfa ddata Kemp ac mae gwaith ar waith gyda'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf i edrych ar orgyffwrdd posibl o ran swyddi gweithwyr cymorth. Hyd yn hyn ymddengys fod gwahaniaethau mawr rhwng y rhaglenni ar wahân i un neu ddau brosiect teuluol.

Cyflwynir adroddiad gerbron grŵp cynllunio Casnewydd y gellir ei rannu unwaith iddo gael ei gytuno a llofnodi'n ffurfiol

D3 - ar y gweill

E3 - Chris E, cynrychiolydd y bwrdd iechyd ond nid cynrychiolydd NCN a chymunedau - bydd angen sedd arall ar y bwrdd ar gyfer y sector iechyd. Mae AH wedi cwrdd â Sian Miller ac yn cwrdd eto â Sian - mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn hapus i AH barhau i symud ymlaen yn hyn o beth

F3 - angen gwaith dilynol ar ôl yr etholiadau

G3 - heb wneud cynnydd

H3 - heb wneud cynnydd

I3 - heb wneud cynnydd UC - yn troi'n wasanaeth lawn / 18-21 /Awdurdod Iechyd Lleol – gwahodd Karl Thomas (newid swydd felly efallai na fydd ef yn y cyfarfod nesaf)

J3 - cysylltwyd â'r Llywodraeth Cymru wedi'r cyfarfod diwethaf a chodwyd pryder am gyllid i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol Cyflwynwyd adroddiad yn ddiweddar i Benaethiaid Grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am raniad cyfartal a chonsensws ar draws y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent. Cytunwyd ar hyn ac mae ymrwymiad o £1700 fesul Awdurdod Lleol dalu costau megis cyfieithu, gwefan, digwyddiadau i ddefnyddiwr a darparwr ac ati.

L5/M5 - Cam-drin Sylweddau, angen gwaith dilynol yn rhwydwaith RDC

N6/O6 - llythyr FCA, mae cyngor croes yn cael ei roi i ddarparwyr gan yr FCA ac mae Casnewydd wedi gofyn am geisiadau i gael eu cofrestru erbyn mis Medi: bydd eglurhad pellach yn cael ei ddsbarthu gan y timau Cefnogi Pobl a bydd y mater yn cael ei godi yng nghyfarfod RDC gyda Llywodraeth Cymru

- Diweddariadau aelodaeth
  - Ethol Dirprwy Gynrychiolydd Darparwyr: does dim unrhyw ymatebion i'r hysbyseb, bydd Cymorth yn ail-ddosbarthu'r hysbyseb yn dilyn y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol
  - Newidiadau i'r aelodaeth
    - Ymddeolodd Mal Topping yn ddiweddar o'r garfan Cefnogi Pobl; rhoddwyd diolch i Mal gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent am ei waith caled

	<p>ynghylch Cefnogi Pobl ardal Caerffili yn rhan o'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Croesawyd Shelly Jones, a fydd yn cymryd lle MT fel Blaen Cynrychiolydd Cefnogi Pobl ardal Caerffili</li> </ul> <p>➤ MOU Ebrill 2017 - i'w gwblhau o hyd</p>	
5.	<p><b>Sefyllfa ariannol yn erbyn y gyllideb</b></p> <p>➤ Alldro'r Chwarter Terfynol 2016/2017: <i>Alldro lleol a rhanbarthol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30<sup>ain</sup> Ebrill 2017</i></p> <p>Trafodwyd a chytunwyd y tabl trosglwyddo arian.</p> <p>Codwyd cwestiwn ynghylch sut mae dyrennir cyfraniadau Awdurdodau Lleol. Dywedodd staff arwain Cefnogi Pobl maent yn cael eu dyrannu yn unol â chyfarwyddiadau'r Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cytunwyd yr Alldro Terfynol, mewn egwyddor, gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent. Mae angen eglurhad wrth symud ymlaen a chytuno sut bydd cyfraniadau Awdurdodau Lleol yn cael eu dyrannu yn y cynllun gwario.</p> <p>Cododd Donna Lemin rhai ymholiadau mewn e-bost ynghylch y dyraniad gwario; bydd angen gweithio ar y rhain y tu allan i'r cyfarfod ac yn cynnwys DL yn y trafodaethau hyn.</p> <p>➤ Adroddiad comisiynu a gwariant awdurdodau lleol 2017-2018</p> <p><b>Blaenau Gwent:</b> amlinellir bwriadau comisiynu yn y papur; dywedodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fod datblygu gwasanaethau'n anodd pan fo cyllidebau mor ansicr. Cynlluniau peilot yw'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu a'u parhau; mae gwasanaeth GaT wedi'i gytuno. Gwariant - mae'r holl arian wedi'i glustnodi ac mae cytundeb wedi'i gyrraedd drwy brosesau cynllunio lleol.</p> <p><b>Caerffili:</b> dim cwestiynau wedi codi</p> <p><b>Sir Fynwy:</b> Mae dadgomisiynu cytundeb cymorth OP gyda MHA wedi'i ymestyn i 30 Medi; mae £40k o orwariant i'w reoli yn sgil hyn.</p> <p><b>Casnewydd:</b> mae rhai cynlluniau peilot yn dechrau yng nghanol y flwyddyn, achos pryder yw ansicrwydd cyllid. Mae'n ffodus peidio cael toriadau ariannol eleni a bod modd parhau â rhai cynlluniau peilot. Rhoddwyd terfyn ar rai cynlluniau peilot y llynedd ar ôl iddyn nhw gael eu hadolygu oherwydd nad oedden nhw'n berthnasol yn strategol. Mae llythyr trosglwyddo arian newydd ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae agen gwneud mwy wrth edrych ar dimau eraill yn y cyngor; o bosibl lle mae cynllun Cefnogi Pobl yn gallu cyllido swyddi sy'n rhoi cymorth o ran tai e.e. Swyddog Digartrefedd Pobl Ifainc.</p> <p><b>Torfaen:</b> mae cynlluniau niferus ar waith, yn gweithio'n agos gyda grwpiau</p>	

	<p>TP; mae cynllun bach peilot gyda gwasanaeth Theuluoedd yn Gyntaf ynghylch anghenion HRS y boblogaeth honno.</p> <p>Trafodwyd amrywiadau yn y dulliau comisiynu Awdurdodau Lleol; mae un Awdurdod Lleol yn dadgomisiynu ei wasanaeth OP ac un arall yn comisiynu gwasanaeth OP penodol. Defnyddiwyd prosesau cynllunio strategol lleol i benderfynu ar flaenoriaethau strategol lleol.</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar y fformat ar gyfer yr Adroddiad Comisiynu a Gwario Awdurdodau Lleol sydd â throsolwg defnyddiol a hawdd i'w llywio ynghylch cymharu cyllidebau a bwriadau chomisiynu/datgomisiynu; cytunodd iddo gael ei gyflwyno gerbron cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent yn flynyddol.</p>	
6.	<p><b>Diweddariad Llywodraeth Cymru: <i>Diweddariad Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol 1<sup>af</sup> Mawrth</i> Wedi'i ddsbarthu o'r blaen: angen cofnodi hyn.</b></p> <p>Dim sylwadau</p>	
7.	<p><b><i>Diweddariadau Awdurdodau Lleol: darparwyd papurau i Aelodau Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gyda'r agenda</i></b></p> <p><b>Blaenau Gwent:</b> ers Ebrill 2017 mae pob gwasanaeth OP yn cael ei gomisiynu ar sail angen yn hytrach na daliadaeth.</p> <p><b>Caerffili:</b> Mae'r Bwrdd Cysylltu Bywydau wedi cytuno ariannu swydd un gweithiwr rhanbarthol drwy ddefnyddio tanwariant eu byrddau; bydd yn rhyddhau arian i'w wario ar flaenoriaethau eraill Cefnogi Pobl.</p> <p><b>Sir Fynwy:</b> Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â strwythur tîm Cefnogi Pobl, yr adnoddau sydd angen i'w rheoli ac ym mha adran dylai'r tîm fod.</p> <p><b>Casnewydd:</b> Mae galw cynyddol ar gymorth fel y bo angen ac mae cymhlethdod anghenion pobl sy'n gofyn am wasanaeth yn cynyddu. Wedi derbyn rhywfaint o arian OPCC i ymchwilio arferion yfed. Cyflwynwyd cais ICF ar y cyd gyda gwasanaeth iechyd yn ddiweddar. Mae gwasanaethau OP i gyd yn seiliedig ar angen erbyn hyn ac nid ar ddaliadaeth. Agorodd Tŷ'r Eirlys fis Ebrill 2017. Yma, mae gwasanaeth symud ymlaen ar gyfer phobl gydag Anghenion Dysgu, canolfan cymuned ac mae cyfleoedd yn ystod y dydd.</p> <p><b>Torfaen:</b> Dechreuodd wasanaeth daladiaeth niwtral fis Ebrill 1<sup>af</sup> 2017, sy'n darparu un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaeth OP HRS. Mae cynllun Cefnogi Pobl wedi cadw ac yn datblygu'r Porth ar gyfer y gwasanaeth hwn.</p>	
8.	<p><b>Diweddariad Darparwyr: <i>diweddariad ar lafar</i></b></p> <p>➤ <b><i>Diweddariadau Fforwm Darparwyr Rhanbarthol: 09/02/2017, Torfaen; 27/04/2017, Blaenau Gwent</i></b></p> <p>Mae dau fforwm darparwyr wedi'u cynnal ers cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fis Ionawr:</p> <p>09/02/2017: Edrychodd y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol ar bapur polisi'r Grwpiau Ymchwil a Chyllid a rhoddodd adborth arno.</p> <p>27/04/2017: Cyflwyniad Naloxone a Connect Gwent; cafwyd adolygiad o</p>	

	<p>flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a godwyd yng Nghynhadledd Cymorth gyda'r Fforwm Darparwyr Rhanbarthol a chytunwyd ar y 3 blaenoriaeth i'w bwydo i mewn i gynllun gwaith y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atal digartrefedd</li> <li>• Egwyddorion Comisiynu</li> <li>• Adolygiad Llety â Chymorth</li> </ul> <p>Dywedodd EH wrth y grŵp fod cynllun Iechyd Meddwl ar draws Gwent wedi'i ei ariannu gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl bellach yn weithredol.</p> <p><b>Gweithred: Trefnu cyfarfod gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl Ledled Gwent ag Arweinwyr Cefnogi Pobl</b></p> <p><b>Diweddariad Landlordiaid: <i>diweddariad llafar</i></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae trafodaethau i alinio agendâu ar gyfer iechyd a thai gwarchod ynghylch defnyddio stoc tai a hefyd i edrych ar ffyrdd o gydweithio</li> <li>• Fforwm Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol: mae papur byr yn cael ei gyflwyno i'r grŵp hwn ynghyd â chylch gorchwyl ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen hwn. Bydd mapio llety, technoleg a larymau ar yr agenda hwn hefyd. <i>Soniodd AH fod rhywfaint o'r gwaith hwn hefyd yn cael sylw gan Grŵp Benaethiaid Gwasanaeth yn arbennig o ran Oedi wrth Drosglwyddo Gofal – mae angen sicrhau nad oes dyblygu gwaith.</i> Mae'r rhan fwyaf o hen bobl yn defnyddio ffonau symudol erbyn hyn, felly mae gwaith yn mynd o'i flaen yn y cynlluniau, er enghraifft, sicrhau bod WIFI ar gael.</li> <li>• Mae gwaith cenedlaethol a rhanbarthol yn cael ei wneud i adolygu darpariaeth cartrefi gofal a'r posibilrwydd cyfuno cyllidebau erbyn 2018.</li> <li>• Rhwydwaith EROSH dan gadeiryddiaeth RS, mae'r rhwydwaith yn anelu at ddylanwadu ar y gwaith SAR.</li> </ul>	C
9.	<p><b>Diweddariad Trechu Tlodi: <i>diweddariad ar lafar</i></b></p> <p>Dim diweddariad ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn</p>	
10.	<p><b>Adroddiad Cynnydd RDC: <i>i'w nodi yn y cofnodion</i></b></p> <p><b>Adrodd ar gynllun gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol:</b></p> <p><b>Is-grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth: <i>diweddariad gwefan</i></b></p> <p>Cafwyd aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol diweddariad cynnydd ynghylch gwefan Cysylltu Defnyddwyr Gwasanaeth a fydd yn cael ei lansio yn achlysur Cynllunio ar gyfer Anghenion Defnyddwyr Gwasanaeth. Anfonwyd neges cadw'r dyddiad at aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gan obeithio bydd Defnyddwyr Gwasanaeth yn 'Gallu Cwrdd â'u Haelod Pwyllgor</p>	



Cydweithredol Rhanbarthol'.

**Adolygiad gwasanaethau lechyd Meddwl: adroddiad drafft i'w drafod**  
Rhoddwyd gorolwg o'r adroddiad gan AL i'r Pwyllgor.

- Comisiynwyd prosiect casgliadau celciau ac mae adroddiad prosiect yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd; mae'n i weld bod deilliannau'r cynllun peilot yn y maes hwn tu hwnt i feini prawf cymhwysedd cynllun Cefnogi Pobl; bydd angen i Weithwyr Cefnogi dynnu i mewn gwasanaethau eraill i roi cymorth i bobl sydd â phroblemau gyda chasgliadau celciau.
- Darparir hyfforddiant yn y maes hwn gan Age Cymru
- Mae hyn yn destun pryder i landlordiaid ledled Gwent; costau mawr i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac mae angen llawer o adnoddau; mae hyn yn arwain at faterion diogelwch tân
- Materion go wahanol yw hel celc ac annibendod ac anrhefn, mae un yn ymwneud ag anhwylder personoliaeth ac un yn fater iechyd meddwl
- Mae angen mapio'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a deall rhagor am yr anghenion

Cytunodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg ardderchog o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac yn cydnabod anghenion gwasanaeth gan fframweithiau cynllunio strategol Cefnogi Pobl Gwent; cytunwyd y dylai gael ei ddsbarthu'n eang ar draws rhwydweithiau a fforymau perthnasol i helpu i lywio eu gwaith a dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno ar gyfer trafodaethau am:

- Fforwm Iechyd Meddwl a Gofal Cymdeithasol: oes modd datblygu llwybr cymorth a fyddai hyn yn diwallu'r angen?
- Rhannu ar draws rhwydweithiau a fforymau OPCC, mae diddordeb mawr gan yr Heddlu mewn materion lechyd Meddwl ac mae trafodaethau ar y gweill gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu: rhannir yr adroddiad gyda'r bwrdd hwn sy'n ystyried blaenoriaethau hyfforddiant ar hyn o bryd. Disgwylir i Gofal gyflwyno gwybodaeth i'r bwrdd a gall hyn fod yn berthnasol/gysylltiedig â'r adroddiad Cefnogi Pobl: Iechyd Meddwl
- Partneriaethau Byrddau NCN
- Caiff yr adroddiad ei rannu gyda Karen Morgan sy'n arwain ar y Strategaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Trafodwyd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y blaenoriaethau presennol a amlinellwyd yn yr adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl RCP, cytunwyd y byddai angen adolygiad pellach ar ôl derbyn adborth oddi wrth y

D  
E

	<p>byrddau uchod.</p> <p><b>Gweithred(iadau)</b></p> <p><b>I'w ddsbarthu - adroddiad Hel Celc a Chasglu Casnewydd pan fo ar gael</b></p> <p><b>I'w ddsbarthu'n eang - adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws y rhwydweithiau strategol perthnasol</b></p> <p><b>Cynllun gwaith Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol 2017/2018</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ <b>Diweddariad Cynhadledd Cymorth Cymru</b></li> </ul> <p>Darparwyd trosolwg o'r blaenoriaethau a amlygwyd yn y Gynhadledd Cymorth i aelodau Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol; roedd hyn wedi'i ystyried gan y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol.</p> <p>Cytunwyd bod llawer o ardaloedd, o bosibl, angen cael eu hystyried gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fel rhan o'r cynllun gwaith eleni:</p> <p><b>Gweithred: Diwrnod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i'w drefnu</b></p>	<b>F</b>
11.	<p><b>Unrhyw fusnes arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ <b>Diffyg Cyllid RDC</b></li> </ul> <p>Cafwyd sylw yn rhan o weithrediadau'r cyfarfod blaenorol</p> <p>Cytunwyd bod cynllun Cefnogi Pobl yn rhyng-gysylltiedig i gynifer o rhwydweithiau a byrddau strategol; mae sicrhau dylanwad ar yr agendâu hyn yn hanfodol bwysig ar gyfer y Rhaglen.</p> <p><b>Gweithred: i'w ddsbarthu - Map Fframwaith Llywodraethu RPB</b></p>	<b>G</b>
	<p style="text-align: center;">Dyddiad/amser cyfarfodydd sydd i ddod:</p> <p style="text-align: center;">6<sup>ed</sup> Gorffennaf 2017, cyfarfod Busnes Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol 9.30 yb</p> <p style="text-align: center;"><b>Ystafell Pwyllgora 2/3, Canolfan Ddinesig, Heol Glantorfaen, Pont-y-pŵl, NP4 6YB</b></p>	

## Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarth Gwent: Gweithrediadau Cyfarfodydd

9:30 am - 13:00 pm, Ebrill 28<sup>ain</sup> 2017

GWEITHRED	RHIF EITEM AGENDA	GWEITHRED	I'W GWBLHAU GAN
A	2	I'w drefnu - cyflwyniad Llwybrau Gwent ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fis Gorffennaf	AL
B	4	<p><b>Camau Gweithredu heb eu bodloni:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod cynrychiolydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cael ei gyfethol/chyfethol wrth adolygu'r aelodaeth</li> <li>• I'w drafod yng nghyfarfod nesaf RPB - a ddylai cynrychiolydd cyfetholedig y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol fynychu?</li> <li>• Cysylltu â chydweithwyr y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc i drafod aelodaeth cyfetholedig</li> <li>• I'w gysylltu - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn trafod cynrychiolaeth</li> <li>• I'w wahodd - Karl / Alan Thomas i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol arall i drafod Diwygiadau Lles a gweithredu Rhentu Doeth Cymru.</li> <li>•</li> </ul>	AL AL AH DD AL
C	8	I'w drefnu - cyfarfod gyda Gwasanaeth Iechyd Meddwl ar draws Gwent ac Arweinwyr Cefnogi Pobl	AL
D	10	I'w ddsbarthu - Adroddiad Hel Celc a Chasglu Casnewydd pan fo ar gael	NS
E	10	I'w ddsbarthu'n eang - adroddiad Adolygiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws y rhwydweithiau strategol perthnasol	RCC
F	10	I'w drefnu - Diwrnod Datblygu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol	AL
G	11	I'w ddsbarthu	AL